Cynllun Natur y Bobl

# People's Assembly for Nature

## Speaker biographies

## *Weekend 1*

| | |
|---|---|
|  | Yr Anthro Nathalie Seddon<br><br>Mae Nathalie Seddon yn Athro Bioamrywiaeth ac yn Gyfarwyddwr Sefydlu'r Fenter Atebion sy'n Seiliedig ar Natur yn yr Adran Bioleg ym Mhrifysgol Rhydychen. Mae hi hefyd yn Gyfarwyddwr Menter Agile ac yn gyd-arweinydd Canolfan Adfer Natur Leverhulme. Hyfforddodd fel ecolegydd ym Mhrifysgol Caergrawnt ac mae ganddi dros 25 mlynedd o brofiad ymchwil mewn amrywiaeth o ecosystemau ledled y byd. Fel Cymrawd Ymchwil Prifysgol y Gymdeithas Frenhinol, datblygodd ddiddordebau ymchwil eang mewn deall tarddiad a chynnal bioamrywiaeth a'i pherthynas â newid byd-eang.<br><br>Mae ei gwaith bellach yn canolbwyntio ar bennu effeithiolrwydd ecolegol ac economaidd-gymdeithasol atebion sy'n seiliedig ar natur i heriau cymdeithasol, a sut i gynyddu dylanwad gwyddoniaeth bioamrywiaeth gadarn ar ddylunio a |

| | |
|---|---|
| | gweithredu polisi hinsawdd a datblygu. Mae Nathalie yn cynghori llywodraethau, asiantaethau'r Cenhedloedd Unedig, a busnesau ar atebion sy'n seiliedig ar natur, fel aelod o Bwyllgor Addasu Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU, Bwrdd Cynghori ar Wyddoniaeth RBG Kew a Phwyllgor Gwyddoniaeth a Gwybodaeth Safon Fyd-eang yr IUCN ar gyfer Datrysiadau Seiliedig ar Natur. |
|  | Tony Juniper<br><br>Tony Juniper CBE yw Cadeirydd yr asiantaeth cadwraeth natur swyddogol Natural England. Cyn ymgymryd â'r rôl hon ym mis Ebrill 2019 roedd yn Gyfarwyddwr Gweithredol dros Eiriolaeth ac Ymgyrchoedd yn WWF-UK, yn Gymrawd gyda Sefydliad Arweinyddiaeth Cynaliadwyedd Prifysgol Caergrawnt ac yn Llywydd yr Ymddiriedolaethau Natur. Tan fis Ionawr 2018 roedd yn gynghorydd annibynnol ar gynaliadwyedd a'r amgylchedd, gan gynnwys fel Cynghorydd Arbennig gydag Uned Cynaliadwyedd Rhyngwladol Tywysog Cymru.<br><br>Mae Juniper yn siarad ac yn ysgrifennu'n eang ar themâu cadwraeth a chynaliadwyedd ac mae'n awdur llawer o lyfrau, gan gynnwys y gwerthwr gorau sydd wedi ennill sawl gwobr 'What has Nature ever |

| | |
|---|---|
| | done for us?' a gyhoeddwyd yn 2013. Dechreuodd Tony ei yrfa fel adaregydd, gan weithio gyda Birdlife International. O 1990 bu'n gweithio gyda Chyfeillion y Ddaear, gan arwain yr ymgyrch dros y fforestydd glaw trofannol i ddechrau, ac o 2003—2008 ef oedd cyfarwyddwr gweithredol y sefydliad. Rhwng 2000 a 2008 roedd yn Is-gadeirydd Cyfeillion y Ddaear Rhyngwladol.<br><br>Ef oedd y cyntaf i dderbyn medal Charles a Miriam Rothschild (2009) a dyfarnwyd graddau Doethur mewn Gwyddoniaeth er anrhydedd iddo gan Brifysgolion Bryste a Plymouth (2013). Cyhoeddwyd The Ladybird guide to climate change, a gyd-ysgrifennwyd gydag EF Tywysog Cymru ac Emily Shuckburgh, ym mis Ionawr 2017. Yn 2017 fe'i penodwyd yn Gomander yr Ymerodraeth Brydeinig (CBE). |
|  | Dr Radhika Borde<br><br>Rwy'n Ddarlithydd yn yr Ysgol Daearyddiaeth, Prifysgol Leeds, y DU lle rwy'n addysgu ac yn ymchwilio i gynaliadwyedd a chyfiawnder cymdeithasol. Mae gen i ddiddordeb tymor hir mewn symudiadau cymdeithasol cynhenid sy'n canolbwyntio ar safleoedd naturiol sanctaidd yn India, ar yr wyf wedi ysgrifennu nifer o gyhoeddiadau. Maes arall o fy ymchwil ac ymyrraeth yw materion |

| | |
|---|---|
| | dŵr, glanweithdra a hylendid yng nghefn gwlad India, yn ogystal â rheoli gwastraff, ac rwy'n archwilio'r rhain gan ganolbwyntio ar rywedd a bregusrwydd. |
|  | Syr John Lawton<br><br>Gwyddonydd amgylcheddol yw Syr John Lawton. Ymddeolodd fel Prif Weithredwr Cyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol yn 2005, ac ef oedd Cadeirydd olaf y Comisiwn Brenhinol ar Lygredd Amgylcheddol tan 2011. Mae'n Gymrawd y Gymdeithas Frenhinol, yn Llywydd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd Efrog, ac yn Is-lywydd yr RSPB. Cadeiriodd yr adroddiad dylanwadol ar Making Space for Nature a gyhoeddwyd yn 2010 a oedd yn argymell |
|  | Ruchir Shah<br><br>Mae Ruchir yn gyfrifol am arwain y gwaith o drawsnewid sut mae Ymddiriedolaeth Natur yr Alban yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd allanol er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng ecolegol sy'n ein hwynebu. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb strategol dros bolisi a materion cyhoeddus, cyfathrebu a marchnata, ac ymgysylltiad yr Ymddiriedolaeth â'i haelodau a'r cyhoedd yn gyffredinol. |



Ella Saltmarshe

Mae Ella yn awdur a sylfaenydd arobryn, ac mae'n gwneud gwaith arloesol ar groesffordd diwylliant a newid systemau. Mae hi wedi sefydlu nifer o sefydliadau, cymunedau ac ymgyrchoedd. Wedi'i hyfforddi fel anthropolegydd, mae Ella wedi gweithio ym maes datblygu rhyngwladol, y diwydiannau creadigol a pholisi cyhoeddus. Drwy weithio'n rhyngwladol mewn lleoedd fel India, Afghanistan ac America Ladin, agorodd ei llygaid i'r effaith yr oedd newid hinsawdd yn ei chael dros 15 mlynedd yn ôl ac mae mynd i'r afael ag ef wedi bod yn sbardun i'w gwaith byth ers hynny. Cwestiwn llosg Ella yw sut, fel rhywogaeth, y gallwn greu dyfodol hir a llewyrchus i holl drigolion y ddaear. Ac felly, mae hi wedi cyd-sefydlu'r Long Time Project - mudiad sy'n ysbrydoli unigolion, sefydliadau a diwydiannau i ddod yn hynafiaid gwell trwy weithredu ar y cyd. Hi sy'n cynnal Podlediad y Long Time Academy Podcast, a ddyfarnwyd yn ddiweddar fel podlediad annibynnol gorau'r flwyddyn gan The Radio Academy, a'r Wobr Arweinyddiaeth Weledigaethol yng Ngwobrau Podlediad Rhyngwladol Menywod. Mae hi hefyd yn cynghori llywodraethau, cyllidwyr a sefydliadau cymdeithas sifil ar naratif, diwylliant a newid systemau.

| | |
|---|---|
|  | **Yr Athro Bill Sutherland**<br><br>Mae William (Bill) Sutherland yn naturiaethwr brwd ac yn gadwraethwr gweithredol, ac mae'n benderfynol i wella arferion cadwraeth. Fe sy'n berchen ar Gadair Miriam Rothschild mewn Bioleg Cadwraeth ym Mhrifysgol Caergrawnt a'r llynedd cafodd CBE 'am wasanaethau i gadwraeth ar sail tystiolaeth'. Mae ei lyfr mynediad agored allan ym mis Tachwedd: Transforming Conservation: a practical guide to evidence and decision making https://www.openbookpublishers.com/books/10.11647/obp.0321.<br><br>Dyma fideo ar ei waith yn cynnwys David Attenborough, Iolo Williams a Gideon Henderson: https://www.youtube.com/watch?v=jdrv15QoUUc |

# *Weekend 2*

| | |
|---|---|
|  | **Yr Anthro Nathalie Seddon**<br><br>Mae Nathalie Seddon yn Athro Bioamrywiaeth ac yn Gyfarwyddwr Sefydlu'r Fenter Atebion sy'n Seiliedig ar Natur yn yr Adran Bioleg ym Mhrifysgol Rhydychen. Mae hi hefyd yn Gyfarwyddwr Menter Agile ac yn gyd-arweinydd Canolfan Adfer Natur Leverhulme. Hyfforddodd fel ecolegydd ym Mhrifysgol Caergrawnt ac mae ganddi dros 25 mlynedd o brofiad ymchwil mewn amrywiaeth o ecosystemau ledled y byd. Fel Cymrawd Ymchwil Prifysgol y Gymdeithas Frenhinol, datblygodd ddiddordebau ymchwil eang mewn deall tarddiad a chynnal bioamrywiaeth a'i pherthynas â newid byd-eang.<br><br>Mae ei gwaith bellach yn canolbwyntio ar bennu effeithiolrwydd ecolegol ac economaidd-gymdeithasol atebion sy'n seiliedig ar natur i heriau cymdeithasol, a sut i gynyddu dylanwad gwyddoniaeth bioamrywiaeth gadarn ar ddylunio a |

| | |
|---|---|
| | gweithredu polisi hinsawdd a datblygu. Mae Nathalie yn cynghori llywodraethau, asiantaethau'r Cenhedloedd Unedig, a busnesau ar atebion sy'n seiliedig ar natur, fel aelod o Bwyllgor Addasu Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU, Bwrdd Cynghori ar Wyddoniaeth RBG Kew a Phwyllgor Gwyddoniaeth a Gwybodaeth Safon Fyd-eang yr IUCN ar gyfer Datrysiadau Seiliedig ar Natur. |
|  | Richard Benwell<br><br>Richard Benwell yw Prif Weithredwr Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Link, clymblaid o 67 elusen amgylcheddol.<br><br>Mae hefyd yn Gadeirydd Partneriaeth Natur Leol Swydd Rhydychen ac yn Gyfarwyddwr Youth for Nature y DU. |

| | |
|---|---|
|  | **Nadia Shaikh**<br><br>Mae Nadia Shaikh yn ymgynghorydd natur ar sail llawrydd, yn adaregydd ac yn eiriolwr ym maes cyfiawnder tir. Mae wedi gweithio yn y sector gwarchod natur ym meysydd polisi ardaloedd gwarchodedig ac ymgysylltu â'r gymuned ers chwe blynedd. |
|  | **Dr Sara McGuckin**<br><br>Dr Sara McGuckin yw Pennaeth Gwyddorau Naturiol yn Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon (NIEA). Mae'n arwain ar warchod natur y tir; dynodi, gwarchod a rheoli ardaloedd gwarchodedig; casglu tystiolaeth ac adrodd ar fioamrywiaeth a chynghori ar bolisïau hinsawdd ac amaeth-amgylchedd. Ar hyn o bryd, mae'n canolbwyntio ar wella'r sylfaen dystiolaeth ar raddfa a chyflwr yr ecosystem a chyfalaf naturiol, yr hyn sy'n sbarduno colli bioamrywiaeth a'r mesurau sydd eu hangen i sicrhau cydnerthedd ecolegol a hinsawdd hirdymor, ynghyd â'r ymrwymiadau fframwaith bioamrywiaeth byd-eang sy'n dod i'r amlwg. Sara oedd |

| | |
|---|---|
| | un o brif awduron adroddiad diweddar ar dystiolaeth Natur Bositif 2030 y DU.<br>Mae Sara wedi gweithio yn NIEA, a'i ragflaenydd, Gwasanaeth yr Amgylchedd a Threftadaeth, ers 21 mlynedd. Mae gan Sara BSc mewn Daearyddiaeth o Brifysgol y Frenhines, Belfast, gradd MSc mewn Rheoli Adnoddau Tir o Brifysgol Cranfield, gradd Meistr drwy Ymchwil mewn Astudiaethau'r Amgylchedd o Brifysgol Ulster, a PhD mewn gwyddor yr amgylchedd. |
|  | Dr Tom Tew<br><br>Dr Tom Tew yw Prif Swyddog Gweithredol NatureSpace, cwmni a sefydlodd yn 2017 i ddylunio, creu a gweithredu cynllun Trwyddedu ar lefel rhanbarthol cyntaf y DU ar gyfer madfallod dŵr cribog, ac sydd bellach yn partneru â dros 50 o Awdurdodau Cynllunio Lleol yn Lloegr.<br><br>Ar ôl ennill gradd PhD mewn cadwraeth tir amaeth ym Mhrifysgol Rhydychen, roedd gyrfa gynnar Tom yn sector Asiantaeth y Llywodraeth. Ar ôl arwain timau arbenigol cenedlaethol ym maes anifeiliaid asgwrn cefn, a bod yn bennaeth ar Awdurdod |

| | |
|---|---|
| | Gwyddonol y DU ar gyfer CITES, roedd Tom yn rheoli timau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar gyfer JNCC, English Nature a Natural England. Mae ei uchafbwyntiau proffesiynol yn cynnwys y cyfrifoldeb dros gyflwyno dynodiad ACA i'r Comisiwn Ewropeaidd, bod yn arweinydd y DU ar gyfer y rhwydwaith Ewropeaidd o safleoedd gwarchodedig ac arwain rhaglen SoDdGA Lloegr. Yn ystod gyrfa 20 mlynedd, bu Tom yn siarad â'r cyfryngau, yn rhoi tystiolaeth i Bwyllgorau Dethol Seneddol a briffio'r Prif Weinidogion. Bu'n gwasanaethu ar sawl pwyllgor, gan fathu'r ymadrodd 'better, bigger, more and joined' tra oedd ar banel arbenigol Syr John Lawton. Gorffennodd Tom ei wasanaeth cyhoeddus fel Cyfarwyddwr Gweithredol a Phrif Wyddonydd yn Natural England.<br><br>Yn ei amser hamdden mae Tom yn gwirfoddoli fel Ymddiriedolwr yn y sector amgylcheddol. Bu'n gadeirydd Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent am 10 mlynedd, yn gwasanaethu dau dymor llawn fel penodiad y Prif Weinidog ar Fwrdd Cronfa Dreftadaeth y Loteri ac mae |

| | |
|---|---|
| | bellach ar Fwrdd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. |
|  | Sam Beaumont<br><br>Mae Sam a Claire yn rheoli Fferm Neuadd Gowbrow, fferm deuluol ar lannau'r Ullswater yn Ardal y Llynnoedd sy'n wynebu'r de. Maen nhw'n frwd dros gynnal harddwch naturiol y dirwedd a chyfoethogi'r bywyd gwyllt sy'n rhan ohoni. Maen nhw'n gofalu am yr amgylchedd ac yn ymwybodol o sut mae ffermio'n cyd-fynd â'r problemau byd-eang ehangach y mae ein planed yn eu hwynebu. |
|  | Yr Athro Miles Richardson<br><br>Mae'r Athro Miles Richardson yn Seicolegydd ac Ergonomegwr Siartredig, ac yn Athro Ffactorau Dynol a Chysylltedd Natur ym Mhrifysgol Derby.<br><br>Sefydlodd y Grŵp Ymchwil Cysylltedd Natur sydd wedi ennill gwobrau. Nod y grŵp yw ceisio deall a gwella'r cysylltiad â natur er mwyn uno llesiant pobl a byd natur. Mae'r grŵp yn gweithio'n agos gyda Natural England ac mae ei waith wedi cael ei fabwysiadu gan lawer o sefydliadau, |

| | |
|---|---|
| | gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yr RSPB ac Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl 2021. Mae Miles hefyd yn un o brif awduron yr asesiad newid trawsnewidiol byd-eang 'Platfform Polisi Gwyddoniaeth Rhynglywodraethol ar Wasanaethau Bioamrywiaeth ac Ecosystemau' (IPBES). |
|  | Maxwell Ayamba<br><br>Maxwell yw Sylfaenydd/Rheolwr Gyfarwyddwr Mudiad Amgylcheddol Sheffield.<br><br>Ar hyn o bryd mae'n Fyfyriwr Ymchwil PhD mewn Astudiaethau Du, Adran Astudiaethau Americanaidd a Chanadaidd, Prifysgol Nottingham, M4C/AHRC. Mae'n newyddiadurwr amgylcheddol wrth ei alwedigaeth, yn gyn Ddarlithydd Cyswllt/Gydymaith Ymchwil, Prifysgol Sheffield Hallam ac yn gyd-sylfaenydd y grŵp'100 Black Men Walk for Health' - grŵp a ysbrydolodd y ddrama genedlaethol "Black Men Walking" yn 2018. Maxwell yw'r person Du cyntaf i wasanaethu ar Fwrdd Cymdeithas Cerddwyr y DU. Yn 2021 cafodd ei enwi fel |

| | |
|---|---|
| | un o'r 70 o bobl fwyaf nodedig yn hanes Parc Cenedlaethol y Peak District ers 1951. Yn 2021, enillodd Maxwell arian gan y Loteri Genedlaethol yn y categori Treftadaeth. Mae wedi ysgrifennu papurau a phenodau mewn llyfrau mewn perthynas â chymunedau lleiafrifol ac amgylchedd y DU. |
|  | **Gillian Dick**<br><br>Gillian yw'r Rheolwr Cynllunio Gofodol – y tîm Ymchwil a Datblygu o fewn y Grŵp Cynllun Datblygu yng Nghyngor Dinas Glasgow. Mae ganddi BSc (Anrh) mewn Cynllunio Trefol o Brifysgol Heriot-Watt a BSc (Anrh) mewn Daearyddiaeth Ddynol o'r Brifysgol Agored. Mae'n aelod siartredig o'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol, ac ar hyn o bryd hi yw Is-gadeirydd eu Panel Partneriaeth ac Achredu. Mae hi newydd gwblhau chwe blynedd yn ei rôl fel ymarferydd enwebedig RTPI ar Fwrdd Partneriaeth Ysgolion, Adran Gynllunio Prifysgol y Frenhines Belfast, a gadeiriwyd ganddi hefyd am y ddwy flynedd olaf. Mae |

| | |
|---|---|
| | newydd ddechrau mewn swydd debyg gyda Bwrdd Partneriaeth Prifysgol Dechnegol Dylun, lle mae'n is-gadeirydd.<br><br>Gillian sydd â phrif rôl y Cyngor o fewn y prosiect Cysylltu Natur Horizon 2020, lle mae Glasgow yn un o'r dinasoedd mwyaf blaenllaw.<br>http://www.connectingnature.eu/glasgow<br>Mae Glasgow yn defnyddio ei Strategaeth Man Agored a'i Gynllun Cyflawni (mapio cyfleoedd) fel esiampl o fewn y prosiect hwn.<br>Dechreuodd Gillian ei gyrfa yn Banff & Buchan / Swydd Aberdeen cyn symud i Glasgow 16 mlynedd yn ôl. Felly, mae ganddi ystod eang o brofiad o weithio mewn ardaloedd gwledig iawn yn ogystal ag ardaloedd trefol iawn. Mae tîm Gillian yn defnyddio dull seiliedig ar leoedd gan ganolbwyntio ar ddatrysiadau sy'n seiliedig ar natur ym mhopeth maen nhw'n ei wneud. |

| | |
|---|---|
|  | Nigel Symes<br><br>Nigel Symes yw Pennaeth Cyngor Sector yn yr RSPB. Mae'n arwain tîm o dros 20, a'i rôl yw helpu tirfeddianwyr a busnesau i helpu bywyd gwyllt. Rydyn ni'n gweithio mewn partneriaeth â Barratt Developments plc i'w helpu i greu datblygiadau sy'n ystyriol o fywyd gwyllt, ar yr un pryd a'u lleoli yn y mannau iawn er mwyn lleihau'r effeithiau ar fyd natur. Mae hon yn broses ddysgu i'r ddwy ochr. Ein bwriad yw dangos i'r holl adeiladwyr, y llywodraeth ac i'r awdurdodau cynllunio nad oes rheswm pam y mae'n rhaid i adeiladu datblygiadau tai newydd gael effaith andwyol ar natur.<br><br>Mae gan Nigel dros 30 mlynedd o brofiad o weithio mewn partneriaethau i ddarparu gwell mannau i fyd natur. Yn ogystal â'r sector adeiladu tai, mae Nigel wedi gweithio â'r sectorau coedwigaeth, chwarela, ynni solar, golff a hyd yn oed y fyddin. |

| | |
|---|---|
|  | Kathryn Deeney<br><br>Pennaeth Cynllunio Amgylcheddol yng Nghyngor Dinas Plymouth. Mae Kat wedi gweithio ym maes yr amgylchedd ers dros 18 mlynedd.<br><br>Ar hyn o bryd, mae ei phortffolio'n cynnwys arweinyddiaeth strategol ar gyfer cynllunio amgylcheddol, gwella mannau gwyrdd a glas ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd yng Nghyngor Dinas Plymouth. Mae hyn yn cynnwys trawsnewid Ystad Werdd y Cyngor, gan gynnwys darparu atebion ar sail ar natur, datblygu ffermydd solar a chreu mannau ar gyfer pobl, datblygu Parc Morol Cenedlaethol cyntaf y DU, darparu Coedwig Gymunedol newydd a datblygu modelau cyllido amgylcheddol arloesol.<br><br>Yn ei holl waith, mae ffocws sylfaenol ar sut gall pobl a natur weithio gyda'i gilydd i sicrhau manteision i bawb. |

| | |
|---|---|
|  | Rosie Hails<br><br>Mae'r Athro Rosie Hails MBE yn ecolegydd ac yn Gyfarwyddwr Natur a Gwyddoniaeth yn yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ac mae'n gadeirydd anrhydeddus ym Mhrifysgolion Caerwysg a Cranfield. Ei rôl yw datblygu strategaeth natur a phortffolio ymchwil yr Ymddiriedolaeth, a rhoi cyngor ar dystiolaeth wyddonol sy'n berthnasol i benderfyniadau'r Ymddiriedolaeth. Mae'n arwain timau sy'n canolbwyntio ar Warchod Natur, Ymchwil a Data Amgylcheddol, Coed a Chreu Coetiroedd, Rheoli Bywyd Gwyllt, Defnydd Tir a'r Manteision Cyhoeddus a ddarperir gan Natur.<br><br>Mae'n aelod o Gyngor Cynghori ar Wyddoniaeth Defra, yn cadeirio'r Grŵp Cynghori ar Dargedau Bioamrywiaeth, ac yn aelod o bartneriaeth TB buchol Defra. Mae hi hefyd ar nifer o fyrddau cynghori. Cyn hynny, hi oedd Cyfarwyddwr Gwyddoniaeth Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU ar gyfer Bioamrywiaeth a Gwyddoniaeth Ecosystem, ac enillodd MBE |

| | |
|---|---|
| | am ei gwasanaethau i Ymchwil Amgylcheddol yn 2000. |
|  | Philip Price<br><br>Mae Philip Price wedi bod yn ffotograffydd bywyd gwyllt proffesiynol sydd wedi ennill gwobrau ac yn dywysydd teithiau ar arfordir gorllewinol yr Alban ers 16 mlynedd. Chwe blynedd yn ôl, helpodd Philip i sefydlu grŵp cymunedol arfordirol a oedd yn rhoi cyfle i'r gymuned leol rhoi eu barn ynghylch sut i ofalu am ein hamgylchedd morol lleol. Enw'r grŵp yw Cromach, sef Craignish Restoration of Marine and Coastal Habitat. Datblygodd y grŵp i fod yn elusen a elwir yn Seawilding, ac mae Philip bellach yn gweithio i'r elusen honno. Mae ganddo rôl ddeublyg - bwrw iddi gyda'r gwaith o ail-wylltio cynefinoedd, a chyfathrebu: addysg, ffotograffiaeth a gwneud ffilmiau. |

| | |
|---|---|
|  | James Rainey<br><br>Yn wreiddiol o Iwerddon, mae James yn Uwch Ecolegydd yn Trees for Life, sefydliad sy'n gweithio i ail-wylltio Ucheldiroedd yr Alban.  Mae wedi treulio'r blynyddoedd diwethaf yn arolygu ac yn adrodd ar iechyd a gwytnwch coedydd pinwydd Caledonaidd, ac ar hyn o bryd mae'n canolbwyntio ar wella dulliau o adfer ar raddfa tirwedd. |
|  | Dr Tim Ferero<br><br>Mae Dr Tim Ferero yn fiolegydd morol ac yn gadwraethwr sy'n gweithio yn Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Hampshire ac Ynys Wyth (HIWWT), gan godi ymwybyddiaeth o fywyd morol, cynefinoedd ac ardaloedd gwarchodedig y Solent. Mae gwaith Tim yn HIWWT yn cynnwys cyfrifoldeb dros gyflawni gweledigaeth "Solent mwy Gwyllt" HIWWT, casglu a dosbarthu data morol, gwyddoniaeth i ddinasyddion ac addysg ac ymgysylltu morol. Ar hyn o bryd, mae Tim yn arwain "Prosiect Adfer Morwellt y Solent" HIWWT, gan weithio ar brosiect 'Life |

| | |
|---|---|
| | recreation ReMEDIES' yr EU sy'n ceisio lleihau effeithiau gweithgareddau hamdden ar forwellt. Mae hefyd yn helpu i reoli prosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yr Ymddiriedolaeth, "Cyfrinachau'r Solent".<br><br>Cyn symud i HIWWT yn 2013, bu Tim yn gweithio am dros 23 mlynedd yn yr Amgueddfa Astudiaethau Natur yn Llundain fel ymchwilydd ac ymgynghorydd ar ecoleg a thacsonomeg nematodau morol sy'n byw'n rhydd.<br><br>Mae gwaith Tim wedi mynd ag ef ar hyd a lled y byd, gan gynnwys pum taith gofiadwy i Antarctica. Bu hefyd yn gwneud gwaith maes yn Kuwait mewn tymheredd o 54 ºC, ond mae'n hapus iawn i fod yn ôl ar arfordir Hampshire lle cafodd ei fagu yn ystod y chwedegau a'r saithdegau hwyr. |

# Weekend 3

| | |
|---|---|
|  | Yr Athro Pete Smith<br><br>Mae Pete Smith yn Athro Priddoedd a Newid Byd-eang yn Sefydliad y Gwyddorau Biolegol ac Amgylcheddol ym Mhrifysgol Aberdeen ac yn Gyfarwyddwr Gwyddoniaeth Canolfan Arbenigedd yr Alban ar y Newid yn yr Hinsawdd (ClimateXChange). Mae wedi bod yn brif awdur cynnull ar sawl adroddiad gan y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) a'r Llwyfan Polisïau Gwyddoniaeth Rhynglywodraethol ar Fioamrywiaeth a Gwasanaethau Ecosystemau (IPBES).<br><br>Mae'n Gymrawd o Gymdeithas Frenhinol Bioleg, o Sefydliad y Gwyddonwyr Pridd ac o Gymdeithas Frenhinol Caeredin, yn Gymrawd Tramor o Academi Wyddoniaeth Genedlaethol India, yn Gymrawd o Academi Wyddoniaeth Ewrop, ac yn |

| | |
|---|---|
| | Gymrawd o'r Gymdeithas Frenhinol (Llundain). |
|  | Sue Pritchard<br><br>Sue Pritchard yw Prif Swyddog Gweithredol y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad. Mae Sue yn arwain y sefydliad yn ei genhadaeth i ddod â phobl at ei gilydd i weithredu ar yr argyfyngau hinsawdd, natur ac iechyd, a hynny drwy systemau bwyd tecach a mwy cynaliadwy, a thrawsnewid cyfiawn i gymunedau gwledig a chefn gwlad.<br><br>Mae cefndir Sue mewn ymchwil ac ymarfer cyfunol ym maes arweinyddiaeth, a datblygu sefydliadau ar gyfer newid systemau, gan weithio gydag arweinwyr ar draws sefydliadau cyhoeddus, preifat ac nid-er-elw, yn enwedig ar brosiectau partneriaeth cymhleth.<br><br>Mae'n un o Ymddiriedolwyr y CoFarm Foundation ac yn |

| | |
|---|---|
| | Llywodraethwr annibynnol yn y Brifysgol Amaethyddol Frenhinol. Mae Sue a'i theulu yn magu da byw ac yn ffermio ar gyfer cadwraeth ar eu fferm organig yng Nghymru. |
|  | Aled Jones<br><br>Aled Jones yw Llywydd NFU Cymru ac mae'n ffermwr wythfed genhedlaeth sy'n rhedeg buches bedigri o wartheg Holsteins gyda'i fab, Osian. Mae Aled yn briod ag Eilir ac mae ganddynt bedwar o blant, Osian, Prysor, Erwain a Gruffudd, yn ogystal â phedwar o wyrion.<br><br>Mae Aled eisoes wedi dal amrywiaeth o swyddi ar draws y diwydiant, gan gynnwys swydd Cadeirydd y cwmni cofnodi llaeth Gwasanaeth Gwybodaeth am Wartheg (CIS) ers saith mlynedd, a bod yn ymddiriedolwr gyda Holstein UK am wyth mlynedd. |

| | |
|---|---|
|  | Martin Lines<br><br>Mae Martin yn ffermwr trydedd genhedlaeth ac yn gontractwr fferm. Mae'n tyfu cnydau âr yn bennaf ar y fferm deuluol. Mae ei fferm yn ne Swydd Caergrawnt ychydig dros 165Ha. |
|  | Crofftwr Ifanc y Flwyddyn Helen O'Keefe<br><br>Mae Helen O'Keefe yn grofftwr, yn berchennog caffi ac yn ymgyrchydd dros bwyd lleol yn Ucheldiroedd Gogledd-ollewin yr Alban. Dechreuodd ei gyrfa yn Awstralia fel peiriannydd, a dyma oedd ei phrif alwedigaeth nes iddi benderfynu symud i'r Alban saith mlynedd yn ôl. Ers hynny, mae wedi gweithio'n galed i wireddu ei huchelgais i weithio ar y tir, cyfrannu at gryfhau cymunedau a diwylliant ei chartref mabwysiedig a helpu i greu system fwyd well sydd o fudd i bobl a natur.<br>Ar y crofft mae'n cynhyrchu cig dafad, wyau, ffrwythau a llysiau (yn |

| | |
|---|---|
| | ogystal â gwlân o ansawdd uchel), a gweithio i wella cyflwr y cynefinoedd y mae'n ffermio ynddynt. Mae hefyd yn gyd-sylfaenydd canolfan fwyd leol The Green Bowl, gan annog cynhyrchu mwy o fwyd yn lleol a helpu i wneud bwyd lleol yn hygyrch i fwy o bobl. |
|  | Yr Athro Paul Kemp<br>Mae Paul Kemp yn Athro Peirianneg Ecolegol ym Mhrifysgol Southampton. Mae ei ymchwil yn ymwneud â deall y systemau cymhleth sy'n gysylltiedig â rheoli adnoddau naturiol yn integredig, yn enwedig mewn perthynas â physgodfeydd morol a dŵr croyw, a sut y gall siociau ddylanwadu ar y systemau hynny.<br>Mae cymwysiadau penodol yn ymwneud â sut y gall dealltwriaeth o ecoleg ymddygiadol pysgod helpu i ddatrys heriau ym maes peirianneg dŵr ac ynni cynaliadwy, yn enwedig o ran sut mae'r amgylchedd ffisegol yn dylanwadu ar ymddygiad a pherfformiad |

| | |
|---|---|
| | ffisiolegol pysgod, a sut y gellir defnyddio dulliau peirianyddol i drin yr amgylchedd hwnnw i liniaru effeithiau negyddol datblygu adnoddau dŵr ac ynni. |
|  | Hannah Fennell<br><br>Hannah Fennell yw Prif Swyddog Gweithredol Cymdeithas Pysgodfeydd Orkney, cymdeithas fasnach sy'n darparu cefnogaeth ac eiriolaeth i ddiwydiant pysgota Orkney. Mae hi hefyd yn Is-lywydd Ffederasiwn Pysgotwyr yr Alban ac yn Ymddiriedolwr y grŵp Women in UK Fisheries. Mae ganddi ddiddordeb mawr mewn gwella cynaliadwyedd amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y diwydiant pysgota drwy ddefnyddio mwy o wyddoniaeth, arallgyfeirio a rheolaeth gadarn.  Mae Hannah hefyd yn gwneud PhD gyda Phrifysgol Heriot Watt ar effeithiau offer pysgota sefydlog a datrysiadau polisi posibl. |

| | |
|---|---|
|  | Helen McLachlan<br><br>Mae Helen yn hanu o Argyll ar arfordir gorllewinol yr Alban ac mae ganddi radd baglor mewn Sŵoleg a Physgodfeydd Morol, a Gradd Meistr mewn Diogelu'r Amgylchedd Morol. Mae hi wedi gweithio gyda materion pysgodfeydd morol ers dros ugain mlynedd. Yn ystod ei gyrfa gynnar roedd yn canolbwyntio ar gysylltiadau bywyd gwyllt morol â physgodfeydd ar draws dyfroedd Ewropeaidd a byd-eang. Dychwelodd at y materion hynny yn 2022 pan benodwyd gan yr RSPB fel Pennaeth Polisi Morol, ac mae hi nawr yn arwain Rhaglen Forol y sefydliad.<br><br>Cyn gweithio gyda'r RSPB, bu Helen yn gweithio gyda WWF ar ddau ddiwygiad i Bolisi Pysgodfeydd Cyffredin Ewrop, a bu'n cadeirio gwaith Greener UK - yn cynrychioli cyrff anllywodraethol yn y DU sy'n eirioli dros Ddeddf Pysgodfeydd gadarn yn y DU. |

| | |
|---|---|
| | Bu hefyd yn byw ac yn gweithio yn Sweden am nifer o flynyddoedd lle bu'n ymgymryd â gwaith fel ymgynghorydd annibynnol, yn ogystal â sefydlu corff anllywodraethol bach a oedd yn mynd i'r afael â thrafferthion llamhidyddion yn y Môr Baltig. Erbyn hyn, mae hi'n byw ger Caeredin – wrth yr arfordir lle mae hi'n cael pleser mawr o fyw ger y môr, a bod yn y môr. |
|  | Rhianna Rees<br><br>Mae Rhianna Rees yn ymchwilydd ac addysgwr gwymon gyda sawl blwyddyn o brofiad yn gweithio yn y sector. Mae hi wedi ennill Gwobr Aquaculture UK's Rising Star (2022), Gwobr Efydd am Innovation at Seagriculture EU (2022), ac wedi cyrraedd rownd derfynol Gwobr Vibes yr Alban. Mae gan Rhianna wybodaeth ddamcaniaethol ac ymarferol helaeth ym maes ffermio, |

| | |
|---|---|
| | marchnata, hanes ac addysg gwymon.<br>Ar hyn o bryd, hi yw Cydlynydd yr Academi Gwymon yng Nghymdeithas Gwyddor Môr yr Alban, a thrwy ei rôl mae hi'n cymryd cysyniadau gwyddonol cymhleth ac yn eu trawsnewid yn fodiwlau diddorol hawdd eu deall ar gyfer yr holl randdeiliaid ar draws y diwydiant. |
|  | **Mark Lea**<br><br>Mae Mark yn ffermwr; mae'n berchen ar ac yn ffermio 450 erw o dir organig yn Swydd Amwythig mewn ffordd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at fioamrywiaeth ac ansawdd pridd, aer a dŵr - a hynny law yn llaw â chynhyrchu bwyd iach y mae galw mawr amdano. |

| | |
|---|---|
|  | Anna Turrell<br><br>Fel Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd yn Tesco, mae Anna yn gyfrifol am agendâu byd-eang y Grŵp, sef y newid yn yr hinsawdd, amaethyddiaeth gynaliadwy a chynaliadwyedd y môr a'r goedwig. Mae Anna hefyd yn gyfrifol am bartneriaeth flaengar Tesco â WWF.<br><br>Cyn ymuno â Tesco, Anna oedd Pennaeth Cynaliadwyedd Nestlé y DU ac Iwerddon, lle bu'n arwain y gwaith o ddatblygu a chyflwyno strategaeth cynaliadwyedd integredig ar draws y busnes aml-gategori.<br><br>Cyn symud yn fewnol, treuliodd Anna 10 mlynedd fel ymgynghorydd cynaliadwyedd yn Ewrop ac Asia. Mae Anna yn un o ymddiriedolwyr yr elusen ymgyrchu amgylcheddol, Hubbub, ac yn un o gyfarwyddwyr Global Compact Network UK y Cenhedloedd Unedig. |

| | |
|---|---|
|  | Hannah Norman<br><br>Rôl Hannah yw Rheolwr Bwyd Cymunedol Cymru yn Synnwyr Bwyd Cymru / Cymdeithas y Pridd. Mae ei gwaith yn cefnogi datblygu systemau bwyd lleol, yn enwedig o ran cynhyrchu garddwriaeth gynaliadwy, o safbwynt polisi ac eiriolaeth, ac fel tyfwr organig hyfforddedig. Mae'n cyflawni swydd ar y cyd i Synnwyr Bwyd Cymru a Chymdeithas y Pridd fel Rheolwr Bwyd Cymunedol Cymru sy'n cefnogi nifer o raglenni, gan gynnwys Sustainable Food Places a Food for Life Get Togethers.<br><br>Fel tyfwr, mae Hannah wedi gweithio ar nifer o ffermydd bach masnachol yn y DU ac UDA. Yn ogystal â'i gwaith eiriolaeth, ar hyn o bryd Hannah yw'r tyfwr ar gyfer gardd gymunedol yn Ne Cymru ac mae'n gwneud gwaith ymgynghori ar ddatblygu mentrau garddwriaeth lleol. Mae Hannah yn gymrawd gydag Ymddiriedolaeth |

| | |
|---|---|
| | Winston Churchill, a'i maes ymchwil yw lleoleiddio systemau bwyd mewn amgylchedd trefol. |
|  | Yr Athro Steve Omerod<br><br>Fel Athro Ecoleg ym Mhrifysgol Caerdydd, mae gan Steve ddiddordeb mewn effeithiau newid byd-eang ar ecosystemau dŵr croyw. Mae ei rolau blaenorol yn cynnwys Cadeirydd yr RSPB; Cadeirydd yr elusen infertebrata, Buglife; Cadeirydd Datblygu Gwyddoniaeth ar gyfer Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU; Cadeirydd Panel Cynghori ar yr Amgylchedd Dŵr Cymru a Llywydd Sefydliad Siartredig Ecoleg a'r Amgylchedd. Ar hyn o bryd, mae'n Ddirprwy Gadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru, yn aelod o Gyd-bwyllgor y JNCC ac yn Is-lywydd yr RSPB. |

| | |
|---|---|
|  | Yvette de Garis<br><br>Ymunodd Yvette de Garis â Thames Water ym 1989 ac, fel Pennaeth Ymgysylltu â'r Amgylchedd, mae bellach yn arwain tîm sy'n gweithio gyda chyrff anllywodraethol amgylcheddol a phartneriaethau dalgylch i gyd-ddylunio a chyflwyno prosiectau partneriaeth i gyflawni amcanion busnes ac amgylcheddol ehangach. Mae gan Yvette radd gyntaf mewn Gwyddor Amgylcheddol o Brifysgol East Anglia ac ail radd mewn Economeg Amgylcheddol o Brifysgol Llundain. Mae'n aelod o'r Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r Amgylchedd. |

| | |
|---|---|
|  | **Mark Lloyd**<br><br>Bu Mark Lloyd yn astudio Daearyddiaeth yng Ngholeg St Catherine, Rhydychen ac yna cwblhaodd radd meistr mewn Rheoli Dŵr Amgylcheddol yn Cranfield. Sefydlodd Thames21 ym 1994 a daeth yn elusen gofrestredig, gan glirio afonydd Llundain.<br>Yn 2005, symudodd i Swydd Henffordd i arwain y gwaith o uno 11 o fudiadau genweirio i ffurfio'r Ymddiriedolaeth Genweirio a chymdeithas Fish Legal yn 2009, gan ymgyrchu a chymryd camau cyfreithiol i warchod yr amgylchedd dŵr.<br>Yn 2019, symudodd Mark i fod yn Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth yr Afonydd, sef corff ymbarél ar gyfer mudiad ymddiriedolaeth yr afonydd, sy'n cynnwys 60 o elusennau annibynnol a dros 500 o staff. |

| | |
|---|---|
|  | Yr Athro Ian Bateman<br><br>Ian J. Bateman OBE, US-NAS, FBA, FEAERE, FRSA, FRSB, yw Cyfarwyddwr y Sefydliad Tir, Amgylchedd, Economeg a Pholisi (LEEP) ym Mhrifysgol Caerwysg, y DU. Mae ei brif ddiddordebau ymchwil yn ymwneud â sicrhau lles cynaliadwy drwy integreiddio gwyddoniaeth naturiol a ffisegol ag economeg, a thrwy weithio gyda busnesau a llunwyr polisïau. Mae Ian wedi bod yn ymgynghorydd ar wella'r amgylchedd i uwch weinidogion Cabinet y Llywodraeth ers dros ddegawd. Mae wedi cynghori Nicola Sturgeon, cyn-Brif Weinidog yr Alban, mae'n aelod o weithgorau amrywiol Trysorlys EF ac roedd yn aelod o'r Pwyllgor Cyfalaf Naturiol a Bwrdd Cydbwyllgor Cadwraeth Natur y DU. |

| | |
|---|---|
|  | **Dr Matthew Agarwala**<br><br>Dr. Matthew Agarwala sy'n arwain prosiect 'Wealth Economy' y Bennett Institute, ym Mhrifysgol Caergrawnt, mae'n aelod o The Productivity Institute ac yn Uwch Gymrawd Polisi yn y Tobin Center for Economic Policy ym Mhrifysgol Yale. Mae ei ymchwil yn cynnwys cyfalaf naturiol a chymdeithasol, mesur economaidd, cyllid gwyrdd, cynhyrchiant a llesiant. Mae cydweithwyr Matthew yn gweithio mewn sawl sector, gan gynnwys ecolegwyr, anthropolegwyr cymdeithasol, aelodau Senedd y DU, ac enillwyr Nobel llawryfog ym meysydd heddwch, meddygaeth, ffiseg a chemeg.<br>Mae Matthew yn gweithio'n agos gyda'r Cenhedloedd Unedig, Banc y Byd, banciau canolog, gweinyddiaethau cyllid a busnesau i dynnu sylw at risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â natur. Mae'n siaradwr cyhoeddus y mae galw amdano ac yn gyfrannwr rheolaidd i'r cyfryngau |

| | |
|---|---|
| | (BBC, Bloomberg, Channel 4 News, FT, Guardian, NYTimes, Reuters a The Times). |

## Weekend 4 – *Citizens' Assembly deliberation support*

| | |
|---|---|
|  | Yr Anthro Nathalie Seddon<br><br>Mae Nathalie Seddon yn Athro Bioamrywiaeth ac yn Gyfarwyddwr Sefydlu'r Fenter Atebion sy'n Seiliedig ar Natur yn yr Adran Bioleg ym Mhrifysgol Rhydychen. Mae hi hefyd yn Gyfarwyddwr Menter Agile ac yn gyd-arweinydd Canolfan Adfer Natur Leverhulme. Hyfforddodd fel ecolegydd ym Mhrifysgol Caergrawnt ac mae ganddi dros 25 mlynedd o brofiad ymchwil mewn amrywiaeth o ecosystemau ledled y byd. Fel Cymrawd Ymchwil Prifysgol y Gymdeithas Frenhinol, datblygodd |

| | |
|---|---|
| | ddiddordebau ymchwil eang mewn deall tarddiad a chynnal bioamrywiaeth a'i pherthynas â newid byd-eang.<br><br>Mae ei gwaith bellach yn canolbwyntio ar bennu effeithiolrwydd ecolegol ac economaidd-gymdeithasol atebion sy'n seiliedig ar natur i heriau cymdeithasol, a sut i gynyddu dylanwad gwyddoniaeth bioamrywiaeth gadarn ar ddylunio a gweithredu polisi hinsawdd a datblygu. Mae Nathalie yn cynghori llywodraethau, asiantaethau'r Cenhedloedd Unedig, a busnesau ar atebion sy'n seiliedig ar natur, fel aelod o Bwyllgor Addasu Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU, Bwrdd Cynghori ar Wyddoniaeth RBG Kew a Phwyllgor Gwyddoniaeth a Gwybodaeth Safon Fyd-eang yr IUCN ar gyfer Datrysiadau Seiliedig ar Natur. |

| | |
|---|---|
|  | Richard Benwell<br><br>Richard Benwell yw Prif Weithredwr Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad Link, clymblaid o 67 elusen amgylcheddol.<br><br>Mae hefyd yn Gadeirydd Partneriaeth Natur Leol Swydd Rhydychen ac yn Gyfarwyddwr Youth for Nature y DU. |
|  | Ruchir Shah<br><br>Mae Ruchir Shah yn gyfrifol am arwain y gwaith o drawsnewid sut mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yr Alban yn ymgysylltu â chynulleidfaoedd allanol er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng ecolegol rydyn ni'n ein hwynebu. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb strategol dros bolisïau a materion cyhoeddus, cyfathrebu a marchnata, a gwaith ymgysylltu ag aelodau'r Ymddiriedolaeth a'r cyhoedd. |

| | |
|---|---|
|  | Yr Athro Ian Bateman<br><br>Ian J. Bateman OBE, US-NAS, FBA, FEAERE, FRSA, FRSB, yw Cyfarwyddwr y Sefydliad Tir, Amgylchedd, Economeg a Pholisi (LEEP) ym Mhrifysgol Caerwysg, y DU. Mae ei brif ddiddordebau ymchwil yn ymwneud â sicrhau lles cynaliadwy drwy integreiddio gwyddoniaeth naturiol a ffisegol ag economeg, a thrwy weithio gyda busnesau a llunwyr polisïau. Mae Ian wedi bod yn ymgynghorydd ar wella'r amgylchedd i uwch weinidogion Cabinet y Llywodraeth ers dros ddegawd. Mae wedi cynghori Nicola Sturgeon, cyn-Brif Weinidog yr Alban, mae'n aelod o weithgorau amrywiol Trysorlys EF ac roedd yn aelod o'r Pwyllgor Cyfalaf Naturiol a Bwrdd Cydbwyllgor Cadwraeth Natur y DU. |

| | |
|---|---|
|  | Dr Matthew Agarwala<br><br>Dr. Matthew Agarwala sy'n arwain prosiect 'Wealth Economy' y Bennett Institute, ym Mhrifysgol Caergrawnt, mae'n aelod o The Productivity Institute ac yn Uwch Gymrawd Polisi yn y Tobin Center for Economic Policy ym Mhrifysgol Yale. Mae ei ymchwil yn cynnwys cyfalaf naturiol a chymdeithasol, mesur economaidd, cyllid gwyrdd, cynhyrchiant a llesiant. Mae cydweithwyr Matthew yn gweithio mewn sawl sector, gan gynnwys ecolegwyr, anthropolegwyr cymdeithasol, aelodau Senedd y DU, ac enillwyr Nobel llawryfog ym meysydd heddwch, meddygaeth, ffiseg a chemeg.<br>Mae Matthew yn gweithio'n agos gyda'r Cenhedloedd Unedig, Banc y Byd, banciau canolog, gweinyddiaethau cyllid a busnesau i dynnu sylw at risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â natur. Mae'n siaradwr cyhoeddus y mae galw amdano ac yn gyfrannwr rheolaidd i'r cyfryngau |

| | |
|---|---|
| | (BBC, Bloomberg, Channel 4 News, FT, Guardian, NYTimes, Reuters a The Times). |